

ann griffiths gan donald williams


Er bod newidiadau mawr wedi bod ar fywyd yng Nghymru yn ystod y ddwy ganrif ers claddu Ann Griffiths (1776-1805), mae ei hemynau yn parhau yn fyw ac yn boblogaidd o hyd gan ein cenedl. Mae gwranddo ar filoedd yn canu 'Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd' ar yr emyn-dôn 'Cwm Rhondda' ar y meysydd chwarae yn enghraifft dda o boblogrwydd emynau Ann Griffiths. Mae'r penillion wedi eu cyfieithu yn 'Caneuon Ffydd' i'r Saesneg 'Lo amid the myrtles standing', gan Jane Owen (1899-1992).

Mae'r llinellau diwethaf yn yr ail bennill wedi creu tipyn o ddadleu! 'Dyma ei beilot ar y môr', 'And their pilot on the sea', yn 'Caneuon y Ffydd', ond yn yr hen lyfrau emynau, y gair 'llywydd' a welir yn lle 'peilot'. Beth oedd Ann Griffiths ei hunan yn cyfeirio ato? Yn llyfr E. Griffiths, Meifod, 1903, 3c, y llinell ydyw 'Dyma'r llywydd ar y môr'. Yn llyfr Morris Davies, Bangor, 1908, 1/3, ceir 'Dyma'r llywydd ar y môr'.

Yn ei lyfr ar Ann Griffiths 2/- ym 1955, mae'r Parchedig D. Tecwyn Evans yn eguro'n fanwl ar dudalen 22 -

'Ymhlith y cyfnewidiadau lluosog a wnaethpwyd ar emynau Ann Griffiths, ymddengys i ni mai un yn unig y gellir ei gyfiawnhau, sef 'Dyma'r llywydd ar y môr' yn lle'r hyn a geir ganddi hi: 'Dyma ei beilot ar y môr.' Myn rhai pobl nad yw 'llywydd' yn welliant, a bod y gair yn eich atgoffa am 'lywydd' darlith neu eisteddfod; ond chwarae teg i'r newidwyr, go sathredig yw 'beilot', ac un o linellau Ann Griffiths mewn emyn arall yw 'Doethineb ydyw'r llywydd,' a cheir 'llywydd' llong yn Iago iii, 4. Prin iawn y byddai'n werth edfryd 'peilot' yn yr emyn adnabyddus.'

Mae'r bedwaredd adnod yn y drydedd



Wyneb-ddalen; Ann Griffiths gan D. Tecwyn Evans



Wyneb-ddalen Beibl William Morgan 1588

bennod o Iago Yr Apostol, yn dweud "Wele, y llongau hefyd, er eu maint, ac er eu gyrru gan wyntoedd creulawn, a droir oddi amgylch a llyw bychan, lle y mynno y llywydd' Ac mae'r Saesneg yn ddi-ddorol, 'Behold also the ships, which though they be so great, and are driven by fierce winds, yet are they turned about with a very small helm, whithersoever the governer listeth.'" Yn y Beiblau modern heddiw ceir -

'A llongau yr un modd; hyd yn oed os ydynt yn llongau mawr, ac yn cael eu gyrru gan wyntoedd geirwon, gellir eu troi â llyw bychan iawn i ba gyfeiriad bynnag y mae'r peilot yn ei ddymuno.'

'Or think of ships: large they may be, yet even when driven by strong gales they can be directed by a tiny rudder on whatever course the helmsman chooses.'

Yn wreiddiol gan Ann Griffiths ceir 'Dyma ei beilot ar y môr' Ystyr 'Peilat' ydyw 'Pilate' ac ystyr 'peilot' ydyw 'pilot'!

Yn emyn cyfarwydd leuan Glan Geirionydd, - 'Ar fôr tymheslog teithio 'rwyf', gyda'r llinell diwethaf ym mhob pennill 'Fy nhad sydd wrth y llyw', cyfeirio mae at 'Dduw wrth y llyw', neu 'God is at the helm'.

Pa Feibl a ddefnyddiwyd gan Ann Griffiths yn Nolwar Fach? Beibl William Morgan, 1588, bron yn siwr, gan fod Llanrhaeadr ym Mochnant yn yr un ardal â Llanfihangel yng Ngwynfa.

Ym Meibl William Morgan y gair a ddefnyddiwyd yn Efengyl Iago iii, 4, yw 'llywydd', ac yn ei gyflwyniad mae William Morgan yn cyfaddef mai adolygu'r cyfieithiad o'r Testament Newydd a wnaeth, sef Testament Newydd Richard Davies, Thomas Huet a William Salesbury yn y flwyddyn 1567.

Wrth ddarllen y cyfieithiad cyntaf, deallir mai Richard Davies oedd yn gyfrifol am gyfieithu Epistol cyffredinol Iago yr Apostol, ac yn ei gyfieithiad o 'Adnod 4 o Bennod iij o EPISTOL GYFFREDINAWL IACO' ceir -

'Nycha hevyd y llongay, rrain cyd bont * mowrion, a gwynt creulawn yw gyrru, etto i troi hwynt o amgylch a wneir a llyw bychan bach, lle y mynnor *llywydd.'

Dim ond pum llyfr o'r Testament Newydd a gyfieithodd Richard Davies, I Timotheus, yr Hebreaid, Iago ac I a II Pedr. Dim ond llyfr y Datguddiad gyfieithodd Thomas Huet, a William Salesbury y gweddill i gyd. Ac un peth pwysig iawn, William Salesbury oedd prif olygydd Testament Newydd 1567.

Fel prif olygydd, gosododd Salesbury ddwy serenig (*) ar gyfieithiad Richard Davies o Iago iij, 4. Y gyntaf gerllaw y gair *morwrion ac yn ymyl y dudalen *cymmeint, a'r ail serenig gerllaw *llywydd ac yn dilyn yn yr ymyl *llywiwr.

Pe buasai adolygwyr Y Beibl Cymraeg wedi astudio y Testament Newydd 1567 ar hyd y canrifoedd, pa ddehongliad o'r gair 'llywiwr' y bydden yn ei ddarllen heddiw?

Mae'r llinell gyntaf ym mhennill Ann Griffiths o ddiddordeb hefyd, sef, 'Rhosyn Saron yw ei enw'. Mae arbenigwraig yn Unol



Wyneb-ddalen Testament Newydd 1567

Daleithiau America, Patricia L. Crawford, Adran Archeoleg, Prifysgol Boston, Massachusetts, yn ceisio dweud nad Rhosyn iawn ydyw Rhosyn Saron. Dweud mae, mai blodyn coch llachar fel tiwlip ydyw, a'r enw yw *Tulipa montana*, sydd heddiw yn doreithiog ym Mryniau Saron.